

# 60% - Rhoi llais iddyn nhw

Anghenion lleferydd, iaith  
a chyfathrebu yn y system  
cyfiawnder ieuenctid

Ebrill 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb](http://www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru](mailto:SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddCydraddoldeb](https://twitter.com/SeneddCydraddoldeb)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# 60% - Rhoi llais iddyn nhw

Anghenion lleferydd, iaith  
a chyfathrebu yn y system  
cyfiawnder ieuencid

Ebrill 2023



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb](http://www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:  
Jenny Rathbone AS**  
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**  
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**  
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**  
Plaid Cymru

## Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>7</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>9</b>
Y cefndir.....	9
<b>2. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid.....</b>	<b>11</b>
Ein Barn Ni.....	12
Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion.....	13
Ein barn ni.....	16
Adnabod Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu.....	17
Timau Troseddau Ieuenctid.....	18
Plismona.....	19
Ein barn ni.....	20
Y llysoedd a dedfrydu.....	21
Ein barn ni.....	23
Darpariaeth therapi lleferydd ac iaith y GIG.....	24
Plant yn y ddalfa.....	27
Ein barn ni.....	27
<b>Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.....</b>	<b>29</b>
<b>Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....</b>	<b>30</b>



---

## Rhagair y Cadeirydd

Un o gonglfeini tegwch yw mynediad teg at gyfiawnder. Mae'n frawychus bod gan o leiaf 60 y cant o'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid ryw fath o anhawster o ran lleferydd, iaith neu gyfathrebu, o gymharu â 10 y cant o blant a phobl ifanc yn gyffredinol, yn ôl yr amcangyfrifon.

Mae anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cwmpasu ystod o heriau, gan gynnwys oedi o ran sgiliau iaith, atal dweud, dyslecsia, byddardod ac anawsterau sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm awtistig. Mae plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn debygol o'i chael yn anodd deall a gwneud synnwyr o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud, neu'n cael trafferth ystyried safbwyntiau neu fwriadau pobl eraill.

Mae gormod o bobl ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (sydd wedi cael diagnosis neu fel arall) yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn y pen draw, ac mae'r cymorth y maent yn ei gael yn y system honno'n dameidiog ac yn annigonol. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi llais i'r 60 y cant dan sylw.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i gymryd camau mewn dau faes allweddol:

- Atal – atal niferoedd mor uchel o bobl ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu rhag dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder yn y lle cyntaf. Rydym am wella ymwybyddiaeth a'r broses o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar gan arbenigwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen, yn enwedig ysgolion.
- Cymorth – sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael sylw wrth iddynt ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, ac ar bob cam ohoni. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan staff a gwasanaethau y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau i ymateb mewn modd priodol i'r rhai y gwelir bod ganddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Rydym wedi ceisio taflu goleuni ar yr anghyfiawnder hwn yn ein system gyfiawnder. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn. Mae cyfiawnder troseddol yn parhau i fod ar 'ymyl garw' datganoli. Felly, bydd angen cydweithrediad ystyrlon rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r sector yn ehangach er mwyn gwneud cynnydd wrth roi llais i'r 60 y cant.

Ein gobaith yw y bydd y cydweithrediad hwnnw'n digwydd wrth inni fynd ar drywydd y Gymru decach yr ydym i gyd yn dymuno ei gweld.

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "Jenny Rathbone" in a cursive script.

**Jenny Rathbone AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnull uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y sector gyda'r nod o ffurfio ffrwd waith newydd gan edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r cysylltiad â'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Dylid cwblhau'r uwchgynhadledd a'r llif gwaith cyd-ddilynol cyn diwedd 2023 a chynnwys camau realistig, targedau mesuradwy, ac amserlen ar gyfer eu cwblhau o fewn blaenraglen waith Bwrdd Cyfiawnder Cymru Gyfan..... Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau addysg lleol, arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion a byrddau iechyd lleol pan fo hynny'n briodol i sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plant a phobl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd..... Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau drwy Fwrdd y Rhaglen Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid i asesu dichonoldeb cael therapyddion lleferydd ac iaith y GIG yn gweithio mewn dalfeydd yng ngorsafoedd yr heddlu, gyda'r bwriad o'u lleoli ledled Cymru yn y tymor canolig. Dylai'r gwaith dichonoldeb cynnar hwn gael ei gwblhau o fewn tri mis a dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'i chanfyddiadau..... Tudalen 21

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid yn y system cyfiawnder ieuenctid i ehangu'r hawl cyfredol o 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, a chyflwyno adroddiad o ran cynnydd o fewn 6 mis. .... Tudalen 23

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar Gynnydd HMPPS o ran gweithredu argymhellion yr Adroddiad Cyd-Arolygu ar Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol..... Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Dylai'r gwaith yma gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023..... Tudalen 28

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i fynd i'r afael ag unrhyw brinder sy'n codi yn y proffesiwn therapi lleferydd ac iaith, mapio rolau a chymwyseddau presennol gweithlu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a sicrhau cynllunio gweithlu digonol ar gyfer y dyfodol. Dylai'r gwaith mapio cychwynnol gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023..... Tudalen 28

# 1. Cyflwyniad

1. Ar 5 Rhagfyr 2022, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ymchwiliad undydd i brofiadau pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder troseddol.<sup>1</sup> Bwriad yr ymchwiliad oedd gwella dealltwriaeth o'r hyn sy'n hysbys ac sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gefnogi pobl ifanc sydd â'r anghenion hyn, a nodi lle y gellid cymryd camau pellach.
2. Fel rhan o'i waith o gasglu tystiolaeth, cyhoeddodd y Pwyllgor alwad wedi'i thargedu am dystiolaeth ysgrifenedig, cynhaliodd sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid, ac ystyriodd astudiaethau achos gan y rhai sydd â phrofiad byw. Darparwyd papur tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.<sup>2</sup>
3. Mae'r manylion llawn am gefndir yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar gael ar **[dudalen hafan yr ymchwiliad](#)**.

## Y cefndir

4. Caffaeliad plant o ran sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yw sail eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu a datrys problemau. Mae cysylltiad cryf rhwng datblygiad gwybyddol cadarnhaol a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a mynediad i'r gweithlu. Gall plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ei chael yn anodd deall a gwneud synnwyr o'r hyn mae pobl yn ei ddweud. Mae hefyd yn effeithio ar sut mae plant a phobl ifanc yn rhyngweithio ag eraill, gan gynnwys cyfathrebu di-eiriau a gallu ystyried safbwynt a bwriadau rhywun arall.
5. Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu fod yn amrywiol a gall gynnwys ystod o namau gan gynnwys atal dweud, anawsterau dysgu ac anawsterau o ran cyfathrebu cymdeithasol (e.e. o ganlyniad i awtistiaeth). Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cynnwys yr heriau hyn, yn ogystal â namau ar y clyw, dyslecsia ac anawsterau llyncu, fel cyflyrau a fyddai'n elwa o ymyriadau gan Therapydd Lleferydd ac iaith.
6. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, waeth beth yw amgylchiadau'r teulu, er mwyn mynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos y gallai

<sup>1</sup> [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol 5 Rhagfyr 2022](#)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

fod mwy na 50 y cant o blant mewn ardaloedd sy'n gymdeithasol ddifreintiedig yn dechrau'r ysgol gyda sgiliau iaith a lleferydd gwan.<sup>3</sup>

**7.** Yn dilyn argymhellion a wnaed yn 2010 gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Senedd<sup>4</sup>, comisiynodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru adroddiad ar sut yr ymdrinnir â phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuencid.<sup>5</sup> Canfu adolygiad y Bwrdd for yr anghenion hyn yn cael effaith negyddol ar allu person ifanc i ymgysylltu'n effeithiol â'r system gyfiawnder.

**8.** Yn 2017, cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith ei sail Tystiolaeth Cyfiawnder, a dynnodd sylw pellach at bwysigrwydd y materion hyn.<sup>6</sup>

**9.** Ym mis Medi 2021 ysgrifennodd y Coleg at y Pwyllgor hwn i awgrymu ymchwiliad byr i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu pobl ifanc yn yr ystâd cyfiawnder ieuencid. Er bod gan tua 60 y cant o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, pwysleisiodd bod gwasanaethau a chymorth yn parhau i fod yn hynod dameidiog.<sup>7</sup>

---

<sup>3</sup> [Royal College of Speech and Language Therapists, Justice Evidence Base Consolidation: 2017](#)

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, [Cyfiawnder Ieuencid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel](#), Chwefror 2010

<sup>5</sup> Prifysgol De Cymru, [A Review of the Speech, Language and Communication Needs of Young People from Wales in the Youth Justice System](#), Gorffennaf 2015

<sup>6</sup> [Royal College of Speech and Language Therapists, Justice Evidence Base Consolidation: 2017](#)

<sup>7</sup> [Llythyr gan Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, 1 Medi 2021](#)

---

## 2. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuencid

Mae gan o leiaf 60 y cant o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae pobl ifanc sydd â'r anghenion hyn yn wynebu heriau ychwanegol ar bob cam o'r broses gyfiawnder troseddol.

**11.** Mae ffigurau gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn awgrymu bod gan 60 y cant, a hyd at 90 y cant o blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r rhain yn amrywio o anawsterau gyda chysylltiadau cymdeithasol, problemau talu sylw, a sgiliau gwranddo a lleferydd. Mae'r Coleg yn disgrifio'r anghenion hyn fel gwendid sy'n aml yn arwain at droseddu.<sup>8</sup>

**12.** Yn 2022, dangosodd data lleol ar gyfer Tîm Troseddau Ieuencid Castell-nedd Port Talbot fod gan 79 y cant o'r bobl ifanc a ddaeth i gysylltiad â gwasanaeth Tîm Troseddau Ieuencid ryw lefel o angen o ran lleferydd ac iaith.<sup>9</sup> Dywedodd cynrychiolwyr Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru mai'r gred yw bod y ffigur hwn yn gymharol gyson ar draws yr holl dimau troseddau ieuencid.

**13.** Er gwaethaf y nifer fawr o achosion, clywodd y Pwyllgor mai ychydig iawn o sefydliadau yng Nghymru sy'n hyrwyddo llais y grŵp yma o bobl ifanc.<sup>10</sup> Ac o'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli eu lleisiau, mae llawer yn rhai ar gyfer y DU gyfan, ac heb ffocws penodol ar Gymru.

**14.** Cysylltodd y Pwyllgor â sawl sefydliad, gan gynnwys Speech and Language UK, a ymatebodd drwy ddweud nad oedd yn gallu cynrychioli lleisiau pobl ifanc yng Nghymru.

<sup>8</sup>Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 9

<sup>9</sup> Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>10</sup> Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraffau 126-132

## Ein Barn Ni

---

I allu defnyddio'r system cyfiawnder troseddol, mae'n rhaid dibynnu ar allu person i wrando, deall a chyfleu meddyliau a phrofiadau mewn geiriau. Er mwyn sicrhau bod gan unigolion sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu fynediad teg at gyfiawnder, mae'r lefel gywir a phriodol o gefnogaeth wrth lywio'r system gyfiawnder (a gwasanaethau yn fwy cyffredinol) yn allweddol. Mae corff mawr o dystiolaeth yn awgrymu bod plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion hyn yn nifer anghymesur o ran cyfanswm y bobl yn y system cyfiawnder ieuenctid. Er gwaethaf y dystiolaeth hon a nifer o ymdrechion i dynnu sylw at y mater, nid yw effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r siawns dwysach y byddant yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol wedi cael y sylw y mae'n ei haeddu. Ymddengys mai cyfyngedig fu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mor bell yn ôl â 2010 gan adroddiad y Pwyllgor Diwylliant a Chymunedau.

Wrth gasglu dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, cawsom anawsterau o ran sicrhau ymgysylltiad gan randdeiliaid, ac roeddem wedi disgwyl i rai fod yn fwy gweithgar yn y gofod hwn. Mae hyn yn adrodd cyfrolau ynglŷn â lefel y sylw a'r adnoddau a gaiff eu cyfeirio at y mater. Rydym yn sylwi hefyd nad oedd sawl sefydliad yn gallu cymryd rhan yn ein gwaith, yn wahanol i gamau gweithredu ar y mater hwn yn Lloegr ac er gwaethaf eu rolau fel eiriolwyr dros blant a phobl ifanc.

Hoffem i'r sector gydweithio i symud yr agenda hon ymlaen ar frys. Un llwybr i gyflawni hyn fyddai i Lywodraeth Cymru gynnull uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol gyda'r nod o ffurfio ffrwd waith a chynllun gweithredu newydd i edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Byddem yn disgwyl i'r gwaith hwn ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar blant, ac sy'n cynnwys yr Adran Addysg yn ogystal â Bwrdd Cyfiawnder Cymru Gyfan. Dylai hefyd gynnwys camau gweithredu, targedau, ac amserlen ar gyfer ei gwblhau, a dylid cwblhau'r manylion cyn diwedd 2023.

Yn ogystal rydym yn bwriadu ysgrifennu'n benodol at Gomisiynydd Plant Cymru gan ofyn iddi ystyried buddsoddi mwy o adnodd i'r maes polisi cyhoeddus hwn gyda phwyslais ar godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnull uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y sector gyda'r nod o

ffurfio ffrwd waith newydd gan edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r cysylltiad â'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid. Dylid cwblhau'r uwchgynhadledd a'r llif gwaith cyd-ddilynol cyn diwedd 2023 a chynnwys camau realistig, targedau mesuradwy, ac amserlen ar gyfer eu cwblhau o fewn blaenraglen waith Bwrdd Cyfiawnder Cymru Gyfan.

## **Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion**

**15.** Pan ofynnwyd i Pippa Cotterill (Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith) am effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc, cyfeiriodd at y risg y gallent ymddieithrio o addysg. Dywedodd fod rhaglenni blaenllaw fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi codi ymwybyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan nodi:

*"[...] there's a lot of very, very good work that's happening, not only by speech and language therapists, but in the much wider workforce."<sup>11</sup>*

**16.** Cyfeiriodd at strategaeth 'Siarad Gyda Fi' Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o therapi lleferydd ac iaith yn y blynyddoedd cynnar, gan ddweud fod y strategaeth wedi bod yn bwysig iawn ac y dylid ehangu ei chyrhaeddiad<sup>12</sup>. Dywedodd hefyd bod heriau ychwanegol wrth i'r plant fynd yn hŷn a symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

**17.** Roedd barn gyffredin fod ymwybyddiaeth wael a diffyg cydnabyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu pobl ifanc mewn ysgolion, yn enwedig ymhlith plant hŷn, yn cyfrannu at orgynrychiolaeth o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid.

**18.** Eglurodd Pippa Cotterill (Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith) y gallai rhai anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymddangos fel anawsterau ymddygiad ar yr olwg gyntaf a bod angen gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth ymhlith y gweithlu ehangach – gweithwyr cymdeithasol, athrawon ysgolion uwchradd a gweithwyr proffesiynol rheng flaen eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc, yn enwedig y rhai 11-16 oed. Mae'n dweud bod angen mwy o ymwybyddiaeth i helpu i nodi a allai anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu fod

<sup>11</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 78

<sup>12</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 118

yn ffactor o ran ymddygiad person ifanc.<sup>13</sup> Hoffai weld rhestr wirio ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei chwblhau ar gyfer plant blwyddyn 6 cyn iddynt fynd i'r ysgol uwchradd i ganfod oes ganddynt unrhyw anghenion o'r fath.

**19.** Cytunodd Kim Jenkins, therapydd arbenigol lleferydd ac iaith ac arweinydd clinigol ar gyfiawnder ieuenctid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, bod gwybodaeth o'r anghenion hyn yn gyfyngedig, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc 11 oed a hŷn, gan ddweud y byddai llawer o bobl yn ei weld fel anhawster o ran oedran cynradd.<sup>14</sup>

**20.** Dywedodd wrth y Pwyllgor nad yw llawer o blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion hyn yn cael eu hadnabod yn gywir yn yr ysgol, a thynnodd sylw at ddau bwynt pwysig am rôl ysgolion wrth ganfod a chefnogi pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu:

- Dylai ysgolion fod yn cefnogi pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i helpu i'w hatal rhag 'ymddieithrio' drwy ddarparu amgylchedd anogol a chydabod y gallai eu hymddygiad ddeillio o'r anawsterau o ran deall a chyfathrebu.
- Gall ysgolion helpu i liniaru'r effaith a gaiff anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar berson ifanc, drwy gynnig cyrsiau galwedigaethol sy'n caniatáu i bobl ifanc sydd ag anawsterau darllen ac ysgrifennu i ffynnu.<sup>15</sup>

**21.** Dywedodd Pippa Cotterill (Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith) y dylai ysgolion fod yn monitro presenoldeb a chyflawniadau i weld lle y gellid darparu cymorth ychwanegol.<sup>16</sup>

**22.** Nodwyd bod gwaharddiad o'r ysgol yn ffactor risg ar gyfer dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Dywedodd Kim Jenkins (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe):

*"More needs to be done around the education side. A lot of the young people who I work with either have been excluded or are at risk of exclusion. So, if they have a speech and language*

---

<sup>13</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 78

<sup>14</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 74

<sup>15</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 11

<sup>16</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 113



*therapy assessment prior to that, then hopefully we can get them to stay in education.*"<sup>17</sup>

**23.** Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg bod therapi lleferydd ac iaith yn cael ei ddarparu mewn ysgolion, a bod gwasanaethau'n cael eu hariannu gan nifer o awdurdodau lleol.<sup>18</sup> Gwnaethom gais am wybodaeth am nifer y dysgwyr ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion dros y pum mlynedd academaidd diwethaf.<sup>19</sup> Wrth ymateb, darparodd y Gweinidog ddata yn dangos nifer y disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol gyda datganiadau ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.<sup>20</sup>

Blwyddyn	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
<i>Nifer y disgyblion a waharddwyd yn barhaol gyda datganiadau anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu</i>	6	9	10	8	heb ei gyhoeddi

**24.** Pwysleisiodd Darren Trollope o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y cysylltiad rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwahardd o'r ysgol:

*"The Youth Justice Board in Wales has been worried about the growing trend of school exclusions, fixed-term and permanent school exclusions, in Wales since 2015. You're looking at an exclusion rate of 0.5 per 1,000 children. Looking at the school census data from 2019—this is 2019 data, obviously pre pandemic, as the latest in the trend that could be properly used—a rate of 0.5 per 1,000 children for permanent exclusions is 23,000 children in Wales excluded from school."*<sup>21</sup>

**25.** Bydd system newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n cael ei chyflwyno'n raddol rhwng nawr a mis Awst 2024 yn golygu y bydd gan bob disgybl ag ADY Gynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhai sydd â'r lefel isaf o AAA/ADY yn cael eu symud oddi ar y system a'u hanfon i'r ddarpariaeth ystafell ddosbarth brif ffrwd (yr hyn a

<sup>17</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 112

<sup>18</sup> Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 13 Ionawr 2023

<sup>19</sup> Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 13 Rhagfyr 2022

<sup>20</sup> Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 13 Ionawr 2023

<sup>21</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 295

elwir yn effaith 'codi'r bar'). Gallai hyn esbonio'r nifer gymharol isel o waharddiadau a welir yn llythyr y Gweinidog.

**26.** Pwysleisiodd Darren Trollope (y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid) rôl ganolog ysgolion fel porth i wasanaethau eraill, gan ddweud:

*"They're that opportunity for early identification and signposting through to services to meet children's needs."<sup>22</sup>*

**27.** Dywedodd y Gweinidog Addysg fod athrawon yn cael eu hyfforddi a bod ysgolion yn cael eu cefnogi i sicrhau bod anghenion plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn "cael eu nodi'n gynnar a bod ymyriadau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith".<sup>23</sup>

## Ein barn ni

---

Clywsom fod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn mwy o berygl o ymddieithrio o ysgolion ac weithiau o gael eu gwahardd, a gall hyn yn ei dro arwain at ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae arwyddion, fodd bynnag, fod cynlluniau fel strategaeth Llywodraeth Cymru 'Siarad Gyda Fi' yn cael effaith gadarnhaol wrth godi ymwybyddiaeth o'r anghenion hyn mewn ysgolion, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar lwyddiant 'Siarad Gyda Fi' ac ystyried ehangu ei chyrhaeddiad i gynnwys plant a phobl ifanc wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Er mwyn gwneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth benodol i fanteision 'rhestr wirio anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu' (fel y cynigiwyd gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith). Nod rhestr wirio o'r fath fyddai asesu a yw'r unigolyn yn cyflwyno angen neu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu neu ddysgu ychwanegol a byddai'n cael ei chynnal ym mlwyddyn 6 cyn dechrau'r ysgol uwchradd.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau addysg lleol, arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion a byrddau iechyd lleol pan fo hynny'n briodol i sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

---

<sup>22</sup> [Y Pwyllgor CChC Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 295](#)

<sup>23</sup> [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 13 Ionawr 2023](#)

mewn plant a phobl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae angen ystyried y rhyngweithio rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a'r fframwaith newydd ar gyfer ADY yng Nghymru yn ofalus, ac rydym yn disgwyl i ysgolion a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn y sector fod yn wiliadwrus wrth gynnal asesiadau. Hyd yn oed mewn achosion lle mae gan blentyn ryw fath o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ond nad ystyrir eu bod yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth ffurfiol (ar ffurf CDU statudol), dylid darparu cefnogaeth briodol gydag anghenion y plentyn.

## Adnabod Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

**28.** Dywedodd tystion, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, wrthym, mai ychydig iawn o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder ieuencid sydd wedi cael cydnabyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**29.** Tynnodd Amanda Turner (Rheolwr Gweithrediadau Tîm Troseddau Ieuencid Castell-nedd Port Talbot) sylw at y ffaith bod y data lleol ar gyfer Tîm Troseddau Ieuencid Castell-nedd Port Talbot eleni yn nodi mai dim ond dau allan o 28 o bobl ifanc a ddaeth i gysylltiad â'r gwasanaeth (ac a gyfeiriwyd at eu therapydd lleferydd ac iaith), oedd wedi bod mewn cysylltiad â therapydd lleferydd ac iaith y tu allan i'r system gyfiawnder.<sup>24</sup>

**30.** Mae Darren Trollope (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid) am weld mwy o ffocws yn cael ei roi ar sicrhau diagnosis cynharach i bobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, cyn iddynt gyrraedd y system gyfiawnder. Dywedodd:

*"[...] the majority of children with speech, language, communication needs, they are not identified by mainstream services. They come to awareness as a result of coming into the youth justice system. And I think while it's laudable that the professionals within the youth justice system have those skills, for me, that feels like it's the wrong way round."*<sup>25</sup>

**31.** Cadarnhaodd Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, bod pobl ifanc, pan ddônt i gysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid, yn cael eu hasesu ac yna gallant gael gafael ar wasanaethau. Roedd

<sup>24</sup> Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot, [tystiolaeth ysgrifenedig](#) (Saesneg yn unig)

<sup>25</sup> [Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 243](#)

hefyd yn holi pam mae'n cymryd ymyriad y gwasanaethau cyfiawnder ieuencid i ganfod problemau lleferydd ac iaith rhywun yn y lle cyntaf.<sup>26</sup>

## Timau Troseddau Ieuencid

**32.** Dywedodd Amanda Turner wrth y Pwyllgor fod Timau Troseddau Ieuencid ledled Cymru yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant lleol (gan gynnwys hyfforddiant 'the Box' Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith) a chan ystod o ddogfennau (drwy ganolfan adnoddau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid). Cyfeiriodd at asesiad Asset Plus, sy'n cynnwys rhestr wirio i staff ei defnyddio i nodi unrhyw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Asset Plus yw'r prif offeryn asesu a ddefnyddir gan Dimau Troseddau Ieuencid. Caiff ei ddefnyddio gan ymarferwyr i sgrinio am gamddefnyddio sylweddau, anghenion iechyd meddwl, lleferydd ac iaith, ac addysg, ac yn y blaen, fel bod anghenion person ifanc yn cael eu canfod yn ystod camau cynnar iawn y broses pan fydd gweithiwr cyfiawnder ieuencid yn dechrau ymdrin â'r achos.

**33.** Er bod Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gefnogol o'r asesiad Asset Plus, rhybuddiodd mai dim ond os yw staff wedi cael hyfforddiant digonol ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r pecyn a beth i chwilio amdano, y gellir ei ddefnyddio'n gywir.<sup>27</sup>

**34.** Ychwanegodd, er bod y ddealltwriaeth a'r gydnabyddiaeth gyfredol yn dda mewn rhai rhannau o'r system cyfiawnder ieuencid o ran pa mor gyffredin yw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith y grŵp hwn o bobl ifanc, mae'n amrywio'n fawr iawn ar draws gwahanol wasanaethau.<sup>28</sup>

**35.** Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cynnig hyfforddiant am ddim i bobl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuencid (e.e. hyfforddiant 'The Box' a 'Mind your Words') ond nid yw'n glir faint o bobl sy'n gweithio yn y sector sy'n manteisio ar yr hyfforddiant hwn, ac a yw gweithwyr proffesiynol yn mynd ymlaen wedyn i gysylltu â gwasanaethau lleferydd ac iaith eu GIG lleol (sy'n golygu felly mai hyfforddiant untro yn unig ydyw).

**36.** Tynnodd cyflwyniad y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sylw at y ffaith fod nifer o wasanaethau cyfiawnder ieuencid wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn

---

<sup>26</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 277.

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Benhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith; Y Pwyllgor CChC, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod o Drafodion, paragraff 13. (Saesneg yn unig)

<sup>28</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 14.

oedd wedi "galluogi gwasanaethau i ystyried sut y gallent sicrhau bod y bobl ifanc sy'n defnyddio eu gwasanaeth yn cael eu cyfeirio at y cymorth cywir".<sup>29</sup>

## Plismona

**37.** Dywedodd Amanda Blakeman (Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru) fod lefel y ddealltwriaeth ar draws plismona yn llawer gwell nag yr oedd yn y gorffennol.<sup>30</sup> Cynigiodd sicrwydd bod swyddogion heddlu'n mabwysiadu dull o blismona yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a'i bod yn hyderus bod swyddogion yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i ddeall pa mor gyffredin yw pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a beth yw'r anghenion y gallent ddod i gysylltiad â nhw. Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman:

*"The training is ongoing, it's comprehensive, it reaches across a huge area, and it is one of those programmes that we are rolling out alongside lots of other training that we do around vulnerability."*<sup>31</sup>

**38.** Clywsom fod therapyddion lleferydd ac iaith penodol y GIG yn gweithio mewn dalfeydd gorsafodd heddlu mewn rhai rhannau o Loegr.<sup>32</sup> Dywedodd cynrychiolwyr plismona nad oedd yr arfer o gael therapyddion lleferydd ac iaith penodol y GIG yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion yr heddlu mewn dalfeydd wedi cael ei ystyried eto yng Nghymru. Cadarnhaodd Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent fodd bynnag, y byddai'n croesawu'r cyfle i weithio gyda chydweithwyr yn y GIG i archwilio sut y gallent wella'r gwasanaeth hwnnw, i ystyried y berthynas.<sup>33</sup>

**39.** Mae Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru, hefyd wedi ymrwmo i archwilio'r mater hwn ymhellach gyda Bwrdd y Rhaglen Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid.<sup>34</sup>

**40.** Tynnodd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol sylw at brofiadau negyddol pobl ag awtistiaeth yn y system cyfiawnder troseddol a nododd fod 69 y cant wedi nodi bod eu triniaeth yn anfoddhaol.<sup>35</sup> Pwysleisiodd y Gymdeithas hefyd yr

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

<sup>30</sup> [Y Pwyllgor CChC Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 158](#)

<sup>31</sup> [Y Pwyllgor CChC Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 176](#)

<sup>32</sup> [NHS Commissioning liaison and diversion](#)

<sup>33</sup> [Y Pwyllgor CChC Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 219](#)

<sup>34</sup> [Y Pwyllgor CChC Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 223](#)

<sup>35</sup> Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, [tystiolaeth ysgrifenedig \(Saesneg yn unig\)](#)

angen i'r heddlu wneud addasiadau i gefnogi pobl awtistig a lleihau gofid, gan ddadlau y dylid ehangu'r defnydd o gyfryngwyr i ddiffnyddion.

**41.** Dywedodd Dr Dave Williams, sy'n Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a'r Glasoed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wrth y Pwyllgor fod y model aml-asiantaeth mewn cyfiawnder ieuencid yn 'rhagorol'.<sup>36</sup>

**42.** Cytunodd Adam Edwards (Uwch Ymarferydd Nyrsio ac Arweinydd Fforensig y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) :

*"[there is] a really close network of multi-agency working that, because everybody is based in that same area, is very tight. You don't get that breakdown in communication. So, everybody knows what they're doing and when, so they're not overloading the young person with hundreds of different interventions at the same time. My experience of working within a youth offending service as a clinical nurse specialist, in particular, is that I've seen some excellent partnership working from across the board of social work, police, substance misuse, speech and language, mental health and probation. It does all work where you've got that multi-agency team sat next to each other."*<sup>37</sup>

**43.** Pwysleisiodd Alison Davies, Prif Swyddog Tîm Troseddau Ieuencid Castell-nedd Port Talbot, ei bod yn bwysig cydleoli'r heddlu â gwasanaethau eraill:

*"It's really important, especially having a police officer in the team alongside the other multi-agency partners in the team...the police officer in the team will then take that [information] back to the public protection unit and say, 'This lad is coming through, and this lad has got speech and language difficulties'. They are just general conversations where things are picked up when you're in the room together."*<sup>38</sup>

## Ein barn ni

---

Clywsom ddadleuon argyhoeddiadol am bwysigrwydd cydleoli'r heddlu â gwasanaethau eraill, ac o fanteision therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion mewn dalfeydd. Dylai Llywodraeth Cymru weithio

---

<sup>36</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 59

<sup>37</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 58

<sup>38</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 284

gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i fanteisio'n llawn ar gydleoli a chynnal asesiad o ddichonoldeb lleoli therapyddion lleferydd ac iaith mewn gorsafoedd heddlu ledled Cymru. Yna, dylai'r asesiad dichonoldeb lywio'r nod o gyflwyno i Gymru gyfan yn y tymor canolig.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu drwy Fwrdd y Rhaglen Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid i asesu dichonoldeb cael therapyddion lleferydd ac iaith y GIG yn gweithio mewn dalfeydd yng ngorsafoedd yr heddlu, gyda'r bwriad o'u lleoli ledled Cymru yn y tymor canolig. Dylai'r gwaith dichonoldeb cynnar hwn gael ei gwblhau o fewn tri mis a dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'i chanfyddiadau.

## Y llysoedd a dedfrydu

**44.** Dywedodd Tom Franklin o Gymdeithas yr Ynadon bod llysoedd ieuenctid yn defnyddio ynadon profiadol a'u bod yn cael hyfforddiant penodol, gorfodol, sy'n tynnu sylw at gyflyrau a allai olygu bod rhai plant a phobl ifanc yn fwy bregus. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod y gallai fod bwch yn yr hyfforddiant a gaiff ei ddarparu o ran y mater penodol hwn o blant ag anghenion cyfathrebu.<sup>39</sup>

**45.** Clywsom fod tystion mewn llysoedd, sy'n agored i niwed, sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gallu cael gafael ar 'gyfryngwyr cofrestredig'. Mae adran 33BA o *Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999* yn ehangu cefnogaeth o'r fath i ddiffynyddion sy'n gymwys ar gyfer mesurau cyfryngol arbennig. Eglurodd Amanda Turner o Dîm Troseddau Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot fod yn rhaid i'r cyfreithiwr ofyn am y gwasanaeth hwn ar ran y person ifanc. Os rhoddir caniatâd, caiff y cyfryngwr ei benodi gan y llys.<sup>40</sup>

**46.** Ychwanegodd Amanda Turner fod rhai llysoedd yn dda am weithredu'r gwasanaeth, ond nad yw eraill ddim cystal:

*"It's concerning that uptake or implementation is patchy because the feedback when they are implemented has been positive."*<sup>41</sup>

**47.** Esboniodd Amanda Turner hefyd fod yr angen i gael addasiadau yn y llys yn llai, o bosibl, ar gyfer pobl ifanc ag anghenion a nodwyd o ran lleferydd, iaith a

<sup>39</sup> Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2022, paragraff 68

<sup>40</sup> Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 227

<sup>41</sup> Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 277

chyfathrebu. Y rheswm am hyn yw bod llawer o waith yn cael ei wneud yn arwain at yr ymddangosiad llys hwnnw gyda'r person ifanc.<sup>42</sup> Dywedodd bod amser yn cael ei dreulio gyda'r person ifanc cyn y llys, yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag amgylchedd y llys, gan fynd â nhw yno i egluro pwy sydd yn eu llys hwy, beth yw eu rolau, beth fydd yn cael ei ofyn iddyn nhw o ran y disgwyliadau. Cadarnhaodd:

*"The youth justice services across Wales have really good relationships with the magistrates and solicitors, and advocate on behalf of young people if we are aware that there are identified speech and language needs to ensure that adaptations are made to the practice within that courtroom to ensure that the young person can engage fully in the process."*<sup>43</sup>

**48.** Ychwanegodd:

*"Similarly, if, again, we are aware of speech and language needs, we will fast-track assessments like speech and language assessments to ensure that we can embed that in the recommendations of pre-sentence reports."*<sup>44</sup>

**49.** Clywsom fod amser yn cael ei dreulio gyda'r person ifanc, ar ôl gwrandawriad llys, yn gwirio eu dealltwriaeth o'r broses a'r hyn maen nhw'n credu oedd y canlyniad iddyn nhw. Pwysleisiodd Amanda Turner bwysigrwydd hyn, gan ddatgan:

*"Again, those that have the benefit of the speech and language therapists within their teams, as we do, all of our paperwork has been checked and adapted by the speech and language therapist to ensure that it's broken down into the most basic language that it can be, that there are visual aids alongside the written word, and that these leaflets are available to young people leaving court as well, then, so they know exactly what, for example, a PSR is or what a referral order is, or what a youth rehabilitation order is at the earliest opportunity."*<sup>45</sup>

---

<sup>42</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 250

<sup>43</sup> CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 250

<sup>44</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 251

<sup>45</sup> Y Pwyllgor CChC, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2022, paragraff 251



## Ein barn ni

Yn gyffredinol, mae pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu cefnogi drwy'r llysoedd gan ymarferwyr Timau Troseddau Ieuencid ac eraill, ond mae pryderon bod y gefnogaeth hon yn dameidiog ac yn anghyson. Mae bylchau posibl hefyd yn y wybodaeth a'r hyfforddiant a wnaiff ynadon ac eraill yn y proffesiwn cyfreithiol o ran yr anghenion hyn yn benodol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac ynadon sy'n eistedd yn y llys ieuencid i godi ymwybyddiaeth o beth yw maint anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder ieuencid. Gallai hyn gynnwys defnyddio neu addasu cwrs hyfforddi 'The Box' a gaiff ei gynnig gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, gyda'r bwriad o'i wneud yn orfodol.

Mae cael gafael ar gyfryngwyr ac eiriolwyr annibynnol yn ffurfio elfen allweddol arall o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yma, mae'r darlun yn fwy cymysg a siom yw clywed bod y nifer sy'n defnyddio hyn yn gallu amrywio. Mae'r **Cod Ymarfer ar Eiriolaeth** a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau Eiriolaeth i blant sydd â phrofiad o ofal a 'phlant mewn angen'.<sup>46</sup> Bwriad gwasanaethau eiriolaeth yw helpu plant a phobl ifanc i fynegi barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw a'u harchwilio. O dan drefniadau 'cynnig gweithredol', mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol mewn amgylchiadau penodol (er enghraifft pan fyddant yn dechrau derbyn gofal).

Credwn fod modd cyfiawnhau trefniadau tebyg ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch hawliau plentyn yn achos plant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuencid, yn enwedig o ystyried yr heriau agored i niwed y maent yn eu hwynebu. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid yn y system cyfiawnder ieuencid i ehangu'r hawl cyfredol i eiriolaeth annibynnol i bobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, ar ffurf 'cynnig gweithredol'.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid yn y system cyfiawnder ieuencid i ehangu'r hawl cyfredol o 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a

<sup>46</sup> [Cod Ymarfer ar Eiriolaeth](#)

chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuencid, a chyflwyno adroddiad o ran cynnydd o fewn 6 mis.

Rydym yn nodi bod cysylltiad agos rhwng llawer o'r themâu yn adroddiad Cyd-Arolygu 2021 ar Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol â'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn.<sup>47</sup> Byddem felly'n croesawu diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad hwnnw.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar Gynnydd HMPPS o ran gweithredu argymhellion yr Adroddiad Cyd-Arolygu ar Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol.

## Darpariaeth therapi lleferydd ac iaith y GIG

**50.** Mae gan rai Timau Troseddau Ieuencid yng Nghymru therapyddion lleferydd ac iaith yn rhan o'u gwasanaethau (ar secondiad o'r GIG). Pwysleisiodd Adam Edwards (Uwch Ymarferydd Nyrsio ac arweinydd CAMHS Fforensig) fanteision y dull hwn, gan gynnwys sut y gall arwain at ganfod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn well a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn addasu'r gwaith o gyflwyno ymyriadau.<sup>48</sup>

**51.** Yn ôl Dr Dave Williams o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae yna arferion anghyson ar draws Cymru, a nododd mai'r arfer gorau yw pan fydd y canlynol ar waith:

*"professionals know each other and have a really low threshold for being able to talk to each other. And, in the past, we've had a model that was very much transactional, about booking an out-patient appointment, and actually that's the end bit of the service, not the thing that's necessarily the most helpful."*<sup>49</sup>

**52.** Ychwanegodd am y cynnig iechyd yn ei fwrdd iechyd ei hun, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

*"[ it] isn't simply [on] a referral and appointment basis, but is one that actually says that the first health offer is knowing your therapist, knowing your professional so that you can, at any*

---

<sup>47</sup> [Neurodiversity in the Criminal Justice System: A review of evidence 2021. \(Saesneg yn unig\)](#)

<sup>48</sup> [Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion. 5 Rhagfyr 2022. paragraffau 56-58](#)

<sup>49</sup> [Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion. 5 Rhagfyr 2022. paragraff 45](#)

*time, pick up the phone and say, 'Look, I'm concerned about this young person, what should I do?'.<sup>50</sup>*

**53.** Dywedodd Dr Dave Williams fod angen i'r mewnbwn therapi lleferydd ac iaith gael ei wneud ar ddechrau'r broses; er mwyn helpu i adeiladu cydberthnasau a strategaethau â phobl ifanc cyn mynd â nhw i apwyntiad mewn clinig. Cytunodd Pippa Cotterill o Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith: "one or two days of a speech and language therapist working in a service gives it that training element. Therapists can assess a young person and work out the extent to which the young person has SLCN."<sup>51</sup>

**54.** Ychwanegodd bod ymyrraeth anuniongyrchol yn cynnwys cefnogi gweithwyr cyfiawnder ieuenctid i ddatblygu strategaethau a dulliau gweithredu fydd yn helpu'r person ifanc (fel defnyddio strategaethau gweledol, neu helpu gyda datrys problemau). Lle mae mwy o ddarpariaeth, gall y therapyddion gymryd rhan mewn ymyriadau uniongyrchol gyda'r person ifanc (fel datblygu geirfa neu gymorth i gael gafael ar addysg). Ategwyd hyn gan ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid fel Amanda Turner o Adran Troseddau Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot:

*"For outreach provision, it often requires young people to attend in-service appointments, rather than that provision coming out to see the young person. We know that, for many of our young people, attending appointments is a difficult thing for them to achieve, and then, once you miss or don't attend a number of appointments, then you're often either taken off the list or you go to the back of it. So, I think having a speech and language therapist embedded in the team is the way forward."<sup>52</sup>*

**55.** Dangosodd data a ddarparwyd gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith fod 10 o Dimau Troseddau Ieuenctid awdurdodau lleol heb therapydd lleferydd ac iaith. Ynghyd â'r data, esboniodd y Coleg ei bod yn bosibl bod rhai o'r timau hyn wedi cael therapydd lleferydd ac iaith y GIG yn y gorffennol ond efallai eu bod wedi'u colli o ganlyniad i gyllid tymor byr neu anawsterau wrth gynnal y gwasanaeth.<sup>53</sup>

<sup>50</sup> Y Pwyllgor CChC. Cofnod y Trafodion. 5 Rhagfyr 2022. paragraff 46

<sup>51</sup> Y Pwyllgor CChC. 5 Rhagfyr 2022. Cofnod y Trafodion. paragraff 30

<sup>52</sup> Y Pwyllgor CChC. 5 Rhagfyr 2022. Cofnod y Trafodion. paragraff 282

<sup>53</sup> tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith (Saesneg yn unig)

## Darpariaeth therapyddion lleferydd ac iaith o fewn Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru

Awdurdod lleol	Nifer y therapyddion lleferydd ac iaith
Blaenau Gwent a Chaerffili	0.2 Cyfwerth ag amser llawn
Pen-y-bont ar Ogwr	0.2 Cyfwerth ag amser llawn
Caerdydd	0
Sir Gaerfyrddin	0
Ceredigion	0
Conwy a Sir Ddinbych	0
Cwm Taf	0.4 Cyfwerth ag amser llawn
Sir y Fflint	0
Gwynedd ac Ynys Môn	0
Sir Fynwy a Thorfaen	0.2 Cyfwerth ag amser llawn
Castell-nedd Port Talbot	0.7 Cyfwerth ag amser llawn
Sir Benfro	0
Powys	0
Abertawe	0.7 Cyfwerth ag amser llawn
Bro Morgannwg	0
Wrecsam	0

*(Ffynhonnell: Papur tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith)*

**56.** Dywedodd Alison Davies o Dîm Troseddau Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot mai loteri cod post ydyw, gan ddadlau ei bod yn anodd cael gafael ar therapyddion iaith a lleferydd, a bod yr un peth yn wir o ran eu cadw yn y swydd.<sup>54</sup> Ychwanegodd fod Castell-nedd Port Talbot wedi mabwysiadu dull rhanbarthol i rannu adnoddau ar draws y rhanbarth.<sup>55</sup>

**57.** Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gyfansoddiad Timau Troseddau Ieuenctid. Gall awdurdodau lleol ariannu therapyddion i gael eu secondio (ymgorffori) i'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Mae gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru gytundebau lefel gwasanaeth gyda'u byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith.

<sup>54</sup> Y Pwyllgor CChC, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 287.

<sup>55</sup> Y Pwyllgor CChC, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 287.

**58.** Mater i awdurdodau lleol yw cyllid ar gyfer y trefniadau hyn; fodd bynnag, mae rôl hefyd i GIG Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau a sicrhau rhannu arferion gorau. Dywedodd Darren Trollope (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid):

*"Having a speech and language therapist would be ideal for most services. I think the challenge really is around that mainstream provision, though. I think, whether it's a referral to a speech and language therapist in the health board or a seconded-in speech and language therapist, if there aren't enough there to go around, it doesn't matter where they are."*<sup>56</sup>

## Plant yn y ddalfa

**59.** Ychydig iawn o dystiolaeth a gawsom a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y ddalfa. Yng Nghymru, mae dwy ystâd ddiogel sy'n dal plant – Carchar EF/ Sefydliad Troseddwy Ifanc y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr (bechgyn yn unig) a Chartref Diogel Hillside i Blant yng Nghastell-nedd (bechgyn a merched). Fel arfer, caiff plant o ogledd Cymru eu hanfon i leoliadau yng ngogledd Lloegr. Mae nifer y plant o Gymru sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd yn isel iawn. (Er enghraifft ym mis Rhagfyr 2022, roedd 13 o blant o Gymru yn y ddalfa).<sup>57</sup>

**60.** Tynnodd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol sylw at ei Chynllun Achredu Awtistiaeth sy'n ceisio gwella arferion awtistiaeth a dywedodd bod llawer o garchardai a gwasanaethau prawf yn cymryd rhan, gan gynnwys Carchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<sup>58</sup>

## Ein barn ni

Roedd yna gefnogaeth glir i'r arfer o leoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob tîm troseddau ieuencid ledled Cymru. Gallai dull o'r fath arwain at nifer o fanteision gan gynnwys sicrhau dull sy'n ystyriol o drawma, yn canolbwyntio ar feithrin perthynas â phobl ifanc a dod i'w hadnabod yn well cyn iddynt symud at wasanaethau eraill. Mae'r dystiolaeth a gawsom ar ffurf **astudiaethau achos** yn dangos yr effaith gadarnhaol y gall y gefnogaeth gywir ei gwneud ar fywydau pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru ac

<sup>56</sup> Y Pwyllgor CChC, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 293

<sup>57</sup> Llywodraeth y DU, Youth custody data (Saesneg yn unig)

<sup>58</sup> Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig).

mae heriau ychwanegol o ran eu recriwtio a'u cadw. Cytunwn fod angen blaenoriaethu mwy o gysondeb o ran y ddarpariaeth therapyddion lleferydd ac iaith, a chael gafael arnynt. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ddarpariaeth bresennol a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau leuencid yng Nghymru. Ar yr un pryd bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i fynd i'r afael â phrinder ac anawsterau sy'n wynebu'r proffesiwn o ran recriwtio a chadw staff, drwy wella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau leuencid yng Nghymru. Dylai'r gwaith yma gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i fynd i'r afael ag unrhyw brinder sy'n codi yn y proffesiwn therapi lleferydd ac iaith, mapio rolau a chymwyseddau presennol gweithlu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a sicrhau cynllunio gweithlu digonol ar gyfer y dyfodol. Dylai'r gwaith mapio cychwynnol gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023.

## Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar [ar wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a sefydliad
<b>21 Tachwedd 2022</b>	<b>Tom Franklin</b> Cymdeithas yr Ynadon
<b>5 Rhagfyr 2022</b>	<p><b>Pippa Cotterill,</b> Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith Cymru</p> <p><b>Kim Jenkins,</b> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe</p> <p><b>Dr Dave Williams,</b> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</p> <p><b>Adam Edwards,</b> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</p> <p><b>Darren Trollope,</b> Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid</p> <p><b>Alison Davies,</b> Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot</p> <p><b>Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman</b> Heddlu Gogledd Cymru</p> <p><b>Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd,</b> Heddlu De Cymru</p> <p><b>Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd,</b> Heddlu Gwent</p>

## Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
<b>SLCN 01</b>	Cyddfederasiwn y GIG
<b>SLCN 02</b>	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
<b>SLCN 03</b>	Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd Cymru
<b>SLCN 04</b>	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot
<b>SLCN 05</b>	Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (25 Mai 2022)
<b>SLCN 06</b>	Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (11 Tachwedd 2022)